

Cyfrinachedd: datgelu gwybodaeth at ddibenion addysg a hyfforddiant

1 Yn ein harweiniad *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion* rydym yn nodi:

77 Mae sawl defnydd pwysig o wybodaeth am gleifion yn cyfrannu at ddarpariaeth gyffredinol iechyd a gofal cymdeithasol. Mae enghreifftiau'n cynnwys rheoli gwasanaethau iechyd, ymchwil, epidemioleg, goruchwylio iechyd y cyhoedd, ac addysg a hyfforddiant. Heb wybodaeth am gleifion, ni fyddai modd i'r system iechyd a gofal cymdeithasol gynllunio, datblygu, arloesi, cynnal gwaith ymchwil na bod yn atebol i'r cyhoedd dros y gwasanaethau a ddarparir ganddi.

79 Fel arfer, bydd gwybodaeth ddiennw yn ddigonol at ddibenion ac eithrio gofal uniongyrchol y claf ac mae'n rhaid i chi ei defnyddio yn hytrach na gwybodaeth adnabyddadwy pryd bynnag y bo modd. Os byddwch yn datgelu gwybodaeth adnabyddadwy, rhaid i chi deimlo'n fodlon bod sail gyfreithiol dros dorri amodau cyfrinachedd.

80 Mae modd i chi ddatgelu gwybodaeth bersonol heb dorri amodau dyletswyddau cyfrinachedd pan fydd unrhyw rai o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol.

- a** Mae'r datgeliad yn ofynnol yn unol â'r gyfraith, gan gynnwys gan y llysoedd (gweler paragraffau 87–94).
- b** Mae'r claf wedi rhoi caniatâd penodol (gweler paragraff 95).

c Cymeradwyir y datgeliad trwy gyfrwng proses statudol sy'n dirymu dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin (gweler paragraffau 103–105).

d Mewn amgylchiadau eithriadol, mae modd cyfiawnhau'r datgeliad er budd y cyhoedd (gweler paragraffau 106–112).

Rhaid i chi deimlo'n fodlon hefyd y bodlonir yr holl ofynion perthnasol eraill er mwyn datgelu gwybodaeth (gweler paragraff 10).¹

Am yr arweiniad hwn

2 Mae defnyddio gwybodaeth am gleifion yn hanfodol ar gyfer addysg a hyfforddiant myfyrwyr meddygol, meddygon dan hyfforddiant a myfyrwyr a hyfforddeion gofal iechyd eraill. Mae'r arweiniad esboniadol hwn yn nodi sut y mae'r egwyddorion cyffredinol yn ein harweiniad *Cyfrinachedd* yn berthnasol yng nghyd-destun penodol addysg a hyfforddiant.

Egwyddorion cyffredinol

- 3 Ar gyfer y rhan fwyaf o ddibenion addysg a hyfforddiant, bydd gwybodaeth ddiennw yn ddigonol ac mae'n rhaid ei defnyddio pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol. Pan fydd angen defnyddio gwybodaeth adnabyddadwy am glaf, neu pan na fydd yn ymarferol sicrhau bod gwybodaeth yn ddiennw, dylech ofyn am ganiatâd penodol y claf cyn ei datgelu i unrhyw un nad ydynt yn aelod o'r tîm sy'n darparu neu sy'n cynorthwyo gofal uniongyrchol y claf. Dylech sicrhau na fydd y claf dan unrhyw bwysau i roi eu caniatâd. Yn arbennig, dylech osgoi unrhyw argraff bod eu gofal yn dibynnu ar eu penderfyniad i roi eu caniatâd.²

Addysgu a hyfforddi myfyrwyr meddygol, meddygon dan hyfforddiant a myfyrwyr a hyfforddeion gofal iechyd eraill

- 4 Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn deall ac yn derbyn y ffaith bod addysgu a hyfforddi myfyrwyr meddygol, meddygon dan hyfforddiant a myfyrwyr gofal iechyd eraill yn dibynnu ar y ffaith bod modd iddynt droi at wybodaeth am gleifion. Os yw meddygon dan hyfforddiant neu fyfyrwyr meddygol neu ofal iechyd yn aelodau o'r tîm sy'n darparu neu sy'n cynorthwyo gyda gofal uniongyrchol claf,³ mae modd iddynt droi at wybodaeth bersonol y claf, yn yr un modd ag y mae aelodau eraill y tîm yn ei wneud, oni bai bod y claf yn gwrthwynebu.⁴
- 5 Os nad yw'r meddyg neu'r myfyriwr yn darparu neu'n cynorthwyo gyda gofal y claf, dylid defnyddio gwybodaeth ddiennw at ddibenion addysg a hyfforddiant pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol. Efallai na fydd modd cyflawni hyn, er enghraifft, wrth fynd o gwmpas wardiau, ond fel arfer, bydd modd ceisio caniatâd penodol y claf i ddatgeliad wedyn.
- 6 Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen datgelu gwybodaeth bersonol, neu efallai na fydd yn ymarferol trefnu ei bod yn ddiennw neu ofyn am ganiatâd claf. Mewn achosion o'r fath,

mae modd i chi ddatgelu gwybodaeth bersonol berthnasol i fyfyrwyr meddygol, meddygon dan hyfforddiant a myfyrwyr a hyfforddeion gofal iechyd eraill, ar yr amod eich bod yn teimlo'n fodlon bod y wybodaeth ynghylch y datgeliad wedi bod ar gael i'r claf, ynghyd â gwybodaeth am eu hawl i wrthwynebu, ac nad ydynt wedi gwrthwynebu. Rhaid i chi deimlo'n fodlon hefyd eu bod yn deall bod y wybodaeth yn cael ei rhoi mewn ffordd gyfrinachol, a bod yn rhaid iddynt barchu hynny.

Cleifion heb alluedd

- 7 Ni ddylech ddatgelu gwybodaeth bersonol at ddibenion addysg a hyfforddiant ynghylch cleifion heb alluedd os oes modd i chi ddefnyddio gwybodaeth am gleifion eraill yn lle hynny.
- 8 Os ydych yn dymuno datgelu gwybodaeth bersonol am glaf heb alluedd ar hyn o bryd (er enghraifft, oherwydd eu bod yn sâl iawn), ond y maent yn debygol o adennill eu galluedd, dylech aros a cheisio'u caniatâd yn nes ymlaen os y gallwch.
- 9 Os gofynnir i chi ddatgelu gwybodaeth am glaf heb alluedd, neu os ydych yn dymuno datgelu gwybodaeth am glaf o'r fath, dylech geisio safbwyntiau unrhyw un y mae'r claf yn gofyn i chi ymgynghori â nhw, neu y mae ganddynt awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar eu rhan,⁵ neu y mae ganddynt berthynas bersonol agos gyda'r claf. Efallai y byddant yn gallu rhoi syniad i chi ynghylch dewisiadau, safbwyntiau a chredoau'r claf a fynegwyd yn flaenorol.
- 10 Yn absenoldeb unrhyw syniad ynghylch dewisiadau claf heb alluedd, ni ddylech gyhoeddi gwybodaeth y byddai modd adnabod y claf o'i gweld. Mewn achosion eithriadol, fodd bynnag, mae modd i chi ddatgelu gwybodaeth bersonol berthnasol i fyfyrwyr meddygol, meddygon dan hyfforddiant a myfyrwyr a hyfforddeion gofal iechyd eraill os yw hyn yn angenrheidiol ar gyfer eu haddysg a'u hyfforddiant. Rhaid i chi deimlo'n fodlon nad oes unrhyw ddewis amgen rhesymol

ymarferol i'r cam o ddefnyddio gwybodaeth bersonol, ac ni ddylai fod gennych chi unrhyw reswm dros gredu bod gwneud hynny yn mynd yn groes i fudd y claf.

Datgelu gwybodaeth i fyfyrwyr ysgolion uwchradd a cholegau

- 11** Weithiau, gofynnir i feddygon gynnig profiad gwaith i fyfyrwyr ysgolion uwchradd neu golegau addysg bellach, a allai gynnwys caniatáu iddynt fod yn bresennol yn ystod ymgynghoriadau gyda chleifion.
- 12** Dylech geisio caniatâd diamwys y claf i weithgarwch lle y bydd myfyriwr yn arsylwi eu gofal. Yn ogystal, dylech deimlo'n fodlon nad yw presenoldeb y myfyriwr yn cael effaith niweidiol ar ofal y claf, er enghraifft, trwy gyfyngu ar drafodaeth agored.
- 13** Dylech sicrhau bod y myfyriwr yn deall pwysigrwydd parchu cyfrinachedd a bod eu hysgol neu eu coleg yn ystyried eu cyfrifoldebau dros ymddygiad eu myfyrwyr o ddifrif.⁶

Cofnodion hyfforddiant ac astudiaethau achos

- 14** Rhaid i chi sicrhau bod gwybodaeth cleifion mewn cofnodion hyfforddiant ac astudiaethau achos yn ddienw i'r graddau ag y bo modd gwneud hynny. Mae'r cod ymarfer ar gyfer gwneud gwybodaeth yn ddienw gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn barnu bod data yn ddienw os nad yw'n datgelu manylion unrhyw unigolyn ar ei ben ei hun, ac os yw'n annhebygol o ganiatáu i unrhyw unigolyn gael eu hadnabod trwy ei gyfuno gyda data arall.⁷ Nid yw'n debygol y bydd y cam syml o gelu enw, oedran, cyfeiriad neu fanylion adnabod personol eraill y claf yn ddigonol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn ddienw yn unol â'r safon hon.⁸
- 15** Os yw hi'n anodd sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn ddienw a chadw digon o fanylion er mwyn sicrhau bod cofnod hyfforddiant yn ddefnyddiol, neu os bydd angen cynnwys

manyion adnabod posibl er mwyn caniatáu i'r cofnod gael ei archwilio, dylech ofyn am ganiatâd y claf i ddefnyddio'u gwybodaeth os y gallwch. Os nad yw hi'n ymarferol i chi geisio caniatâd y claf, mae modd i chi ddefnyddio gwybodaeth a allai fod yn adnabyddadwy mewn cofnod hyfforddiant ar yr amod eich bod yn teimlo'n fodlon y bydd y cofnod yn cael ei gadw mewn ffordd ddiogel ac y caiff ei reoli yn unol â gofynion diogelu data eraill. Rhaid i chi ddileu cymaint o fanylion adnabod ag y gallwch o hyd.

- 16** Os yw'r wybodaeth yn debygol o fod yn hygyrch mewn ffordd ehangach (er enghraifft, mewn trafodaeth mewn seminar neu gynhadledd, neu trwy ei chyhoeddi mewn cyfnodolyn), ac os ydych yn barnu y byddai modd adnabod y claf, ni ddylech ddefnyddio'r wybodaeth fel arfer nes i chi sicrhau caniatâd penodol y claf.
- 17** Wrth ofyn am ganiatâd y claf, rhaid i chi roi digon o wybodaeth iddynt am natur a diben y datgeliad er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus. Dylai hyn gynnwys disgrifiad o'r wybodaeth i'w datgelu a syniad o'r sawl y bydd modd iddynt droi ati a sut y caiff ei defnyddio.
- 18** Cewch ddatgelu gwybodaeth at y dibenion y mae'r claf wedi rhoi eu caniatâd yn unig, ac mae'n rhaid i chi ddileu cymaint o fanylion adnabod ag y gallwch. Rhaid i chi barchu penderfyniad claf i wrthod rhoi eu caniatâd i'r cam o gyhoeddi eu gwybodaeth adnabyddadwy.
- 19** Os na fydd modd i chi sicrhau caniatâd claf am ba reswm bynnag – er enghraifft, oherwydd bod y wybodaeth yr ydych yn dymuno ei datgelu mor hen fel bod ymdrechion i olrhain y claf wedi bod neu'n debygol o fod yn aflwyddiannus – bydd angen i chi ystyried a oes modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth a allai fod yn adnabyddadwy er budd y cyhoedd.⁹ Dylech geisio cyngor gan warcheidwad data neu Caldicott neu gynghorydd cyfreithiol, nad ydynt yn gysylltiedig mewn ffordd uniongyrchol â'r defnydd yr ystyrir y datgeliad yn ei gylch, cyn datgelu gwybodaeth bersonol heb sicrhau caniatâd.

Ôl-nodion

- 1 Mae'r holl rifau paragraff yn yr adran hon yn cyfeirio at ein harweiniad *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion*. Mae modd i chi weld ein holl arweiniad ar-lein trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance.
- 2 Gweler ein harweiniad *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd*, sy'n nodi bod yn rhaid i chi roi'r wybodaeth i gleifion y byddant yn ei dymuno neu y bydd angen iddynt ei chael ynghylch y graddau y bydd myfyrwyr yn ymwneud â'u gofal efallai, a'u hawl i wrthod cymryd rhan mewn gweithgarwch addysgu.
- 3 Yn yr arweiniad hwn, mae 'gofal uniongyrchol' yn cyfeirio at weithgareddau sy'n cyfrannu mewn ffordd uniongyrchol i'r diagnosis, y gofal a'r driniaeth ar gyfer unigolyn. Mae'r tîm gofal uniongyrchol yn cynnwys y gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol hynny sy'n darparu gofal uniongyrchol i'r claf ac i eraill, megis staff gweinyddol, sy'n cymorthwyo'r gofal hwnnw mewn ffordd uniongyrchol.
- 4 Gweler paragraffau 28–29 *Cyfrinachedd* er mwyn cael cyngor am ganiatâd dealedig.
- 5 Mae gan atwrneiod lles, gwarcheidwaid a benodir gan lys a dirprwyon a benodir gan lys awdurdod cyfreithiol i wneud rhai penderfyniadau ar ran claf. Yng nghyd-destun datgeliadau er budd y cyhoedd, byddwch yn ceisio'u safbwyntiau ynghylch dewisiadau'r claf, yn hytrach na'u caniatâd i ddatgelu.
- 6 Cyhoeddwyd canllawiau ymarferol ynghylch trefnu profiad gwaith yng Nghymru, *Galluogi profiad gwaith yn y sector iechyd yng Nghymru* (Gyrfa Cymru, 2012), ac yn Lloegr, *More than photocopying: Work experience - a toolkit for the NHS* (Gyrfaedd Addysg Iechyd Lloegr, 2015).
- 7 Mae modd i chi weld cod ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ynghylch sicrhau bod gwybodaeth yn ddienw ar wefan ICO sef www.ico.org.uk.
- 8 Mae manylion adnabod posibl eraill yn cynnwys llythrennau cyntaf y claf, eu cod post, eu rhif GIG neu CHC, manylion adnabod lleol (megis rhifau ysbytai), eu rhif yswiriant gwladol, a dyddiadau allweddol (megis dyddiad geni, dyddiad rhoi diagnosis neu ddyddiad marwolaeth).
- 9 Mae Academi y Colegau Brenhinol Meddygol wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch cofnodi gwybodaeth mewn e-bortffolios, y mae modd i chi eu gweld ar ei gwefan sef www.aomrc.org.uk/publications/reports-guidance/academy-guidance-e-portfolios.